

employers for carers

# Pecyn Cymorth









# Aelodaeth Ymbarél

**Ymgysylltu â chyflogwyr bach/canolig**

## Ynglŷn â gofalwyr yn y gweithle

Bydd gofalu am aelod o'r teulu, cymar neu ffrind sâl, hŷn neu anabl yn effeithio ar y mwyafrif ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau. Eisoes mae gan 1 o bob 7 o bobl yng ngweithlu'r DU gyfrifoldebau gofalu ac mae'r gymhareb hon yn debygol o gynyddu wrth i bobl fyw'n hŷn ac ymddeol yn hwyrach. Nododd ymchwil ddiweddar a wnaed gan Carers UK fod cynifer â 600 o bobl y dydd yn y DU yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am rywun, yn aml am eu bod yn wynebu argyfwng gofal heb wybod ble i droi i gael gwybodaeth a chefnogaeth.  Ac eto mae gofalu yn dal i fod yn fater y mae pobl yn ei chael hi'n anodd ei drafod a chynllunio ar ei gyfer yn y gweithle.

### Pwy sy'n ofalwyr yn y gweithle?

Mae Cyflogwyr i Ofalwyr yn defnyddio'r diffiniad canlynol i ddisgrifio gofalwyr yn y gweithle:
*Cyflogeion â chyfrifoldebau gofalu sy'n effeithio ar eu bywyd gwaith yw gofalwyr. Mae'r cyflogeion hyn yn gyfrifol am ofalu am berthnasau, partneriaid neu ffrindiau sâl, hŷn neu anabl sy'n methu â gofalu amdanyn nhw, a rhoi cymorth iddynt.*

## Y pecyn cymorth hwn

Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi'i greu gan Cyflogwyr i Ofalwyr er mwyn helpu sefydliadau Aelodaeth Ymbarél i rannu manteision Cyflogwyr i Ofalwyr gyda busnesau bach/canolig eu maint (BBaChau). Bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- galluogi busnesau bach a chanolig i gadw staff allweddol drwy adnabod a chefnogi gofalwyr yn eu gweithlu
- codi proffil gofalwyr sy'n gweithio yn eich ardal chi neu o fewn eich aelodaeth
- codi ymwybyddiaeth o adnoddau Cyflogwyr i Ofalwyr a chefnogaeth ymysg busnesau bach a chanolig lleol

Fel arfer, mae'r sefydliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer ein cynllun Aelodaeth Ymbarél yn cynnwys:

- Sefydliadau cyflogwyr lleol/sefydliadau busnes megis siambrau masnach neu gymdeithasau masnach sy'n dymuno cefnogi busnesau bach a chanolig yn eu haelodaeth.
- Awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cyflwyno gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr yn gynnar.

## Sut i ymgysylltu â chyflogwyr

- **Ysgrifennwch eich achos busnes eich hun**, yn ddelfrydol gan ddefnyddio astudiaethau achos er mwyn cryfhau'r cyd-destun lleol. Gallwch ddod o hyd i gynllun busnes ar ein gwefan:

  https://www.employersforcarers.org/membership/business-case.
- **Cymerwch ran mewn digwyddiadau busnes perthnasol,** megis brecwastau busnes, 'cwrdd â'r prynwr' neu ffeiriau swyddi. Gallwch gynnal eich digwyddiad rhwydweithio eich hun mewn partneriaeth â chyflogwr lleol mawr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun.
- **Siaradwch wyneb yn wyneb** er mwyn egluro'r cynllun, os yn bosib. Gallwch hefyd ddefnyddio ein taflenni a deunyddiau i gyrraedd ymhellach.
- **Adnabod sianeli cyfryngau allweddol** megis gorsafoedd radio lleol, papurau newydd, gwefannau i godi ymwybyddiaeth o faterion yn lleol.
- **Defnyddiwch rwydweithiau busnes a'r cyfryngau cymdeithasol** megis LinkedIn a Facebook i hybu'r cynllun.
- **Gwnewch y gorau o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth** megis Wythnos Gofalwyr a Diwrnod Hawliau Gofalwyr.
- **Ceisiwch adnabod hyrwyddwyr busnesau bach a chanolig** a all weithredu fel lladmeryddion allweddol ar gyfer y cynllun i gyflogwyr eraill. O'n profiad ni wrth ddatblygu fforwm Cyflogwyr i Ofalwyr, mae hwn yn ffactor allweddol yn llwyddiant y cynllun am fod argymhellion cyfoedion i gyfoedion o'r math yma'n debygol o daro tant gyda chyflogwyr yn anad dim arall.
- **Byddwch yn greadigol** – bydd nifer o rwydweithiau busnes a gwasanaethau gwybodaeth o fewn eich ardal y gallwch eu defnyddio i hyrwyddo aelodaeth. Isod ceir rhestr o rai enghreifftiau – ond cofiwch, chi sy'n adnabod eich ardal leol orau!
  - Partneriaethau Menter Lleol (LEP's)
  - Grwpiau lles yn y gwaith

- Siambrau Masnach ac Urddau
- Rhwydweithiau Adnoddau Dynol Lleol
- Grwpiau Comisiynu Clinigol
- Meddygfeydd, ysbytai a chartrefi gofal
- Gwybodaeth busnes a gwasanaethau llyfrgell
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Rhwydweithiau menter gymdeithasol
- Colegau a darparwyr addysg
- Gwasanaethau twf economaidd a dechrau busnesau newydd
- Cadwyni cyflenwi

## Y deg awgrym gorau

1. Arweiniwch drwy esiampl.
2. Byddwch yn realistig am yr amser y bydd yn ei gymryd i gael cymorth sefydliadau. Mae'n bosib y bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd dros gyfnod o amser.
3. Cofiwch y gallai fod yn anodd adnabod gofalwyr yn y gweithle (ac i ofalwyr nodi eu bod yn ofalwyr); anogwch eich busnesau bach a chanolig i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo cyson.
4. Anogwch fentrau bach a chanolig i normaleiddio gofalu: anogwch nhw i drafod y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan gyfeirio'n benodol at ofalu, yn eu sesiynau ymsefydlu ac adolygu neu arfarnu.
5. Defnyddiwch eich rhwydweithiau presennol i hyrwyddo'r cynllun.
6. Hyfforddwch reolwyr i fod yn ymwybodol o ofalwyr ac yn ymatebol iddynt ac i hyrwyddo'r cynllun yn allanol.
7. Defnyddiwch ddull o'r brig i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r brig, gan adnabod uwch hyrwyddwyr a chyfranogiad llawr gwlad.
8. Dosbarthwch wybodaeth am ofalu ac am ofalwyr yn rheolaidd – bydd pobl yn aml ond yn sylwi ar wybodaeth pan fydd yn berthnasol iddynt.
9. Meddyliwch am yr ymbarél – ydych chi wedi cofrestru eich cadwyn gyflenwi? Eich siop gornel leol? Eich meddygfa?
10. Cyfeiriwch fentrau bach a chanolig at sefydliadau allanol a all helpu megis Cyflogwyr i Ofalwyr a Carers UK.

## Darllenwch astudiaeth achos

Darparodd Gyngor Sir Lincoln mewn partneriaeth ag Every-One astudiaeth achos, yn dweud wrthym sut maent yn ymgysylltu â busnesau bach a chanolig a phartneriaid iechyd, sut maent yn annog cofrestru a rhai o'r heriau maent wedi'u hwynebu a sut maent wedi llwyddo i'w goresgyn.

Darllenwch yr astudiaeth achos yma

## Y tri cham nesaf

- Cysylltu â busnesau bach a chanolig yn eich ardal chi (neu yn eich aelodaeth) a siarad â nhw am ofalu a sut y gall effeithio ar eu gweithlu.
- Hyrwyddo Aelodaeth Ymbarél Cyflogwyr i Ofalwyr a'r adnoddau sydd ar gael.
- Dosbarthwch e-fwletin misol Cyflogwyr i Ofalwyr i'ch cysylltiadau. Gall unigolion gofrestru hefyd i dderbyn yr e-fwletin ar wefan Cyflogwyr i Ofalwyr.

## Cysylltu â Cyflogwyr i Ofalwyr

**Ffôn:** 020 7378 4956  **E-bost:** client.services@carersuk.org

**Gwefannau:** employersforcarers.org | etcdigital.org